

cwmpawd

*eglwys efengylaidd
gymraeg caerdydd*



Golygyddol

Gwynn Williams

Yn ddiweddar rydym fel eglwys wedi dilyn cyfres fer o bregethau ar lyfr Job, sydd yn cyffwrdd â bywyd pob unigolyn, oherwydd nid oes neb yn mynd trwy fywyd heb orfod wynebu rhyw drasiedi neu golled neu ddioddef annealladwy. Dyna yn union, wrth gwrs, yw profiad Job. Mae yn dioddef colli ei holl eiddo, caiff ei blant eu lladd mewn trychineb naturiol, caiff glefyd mwyaf poenus a dirdynol.

Cawn ffrindiau Job yn dod i'w gysuro ond fel y gwelwn yn y diwedd, yn ei ddiflasu am eu bod yn credu fod ei sefyllfa yn sicr yn adlewyrchu'r ffaith fod yna ryw bechod yn ei fywyd ac mai cosb Duw yw'r cyfan. Nawr mae'r Beibl yn dysgu fod Duw yn cosbi pechod ond mae'r cyfeillion yma yn anghywir i ddod i'r casgliad yma am Job oherwydd nid oes ganddynt y darlun cyfan. Nid oes ganddynt y darlun llawn. Yn aml mae treialon bywyd yn cael eu

dehongli gan rai fel arwydd sicr fod un wedi digio Duw ac yn cael ei gosbi. Ond ni ddylem neidio i'r casgliad yn ddi-feddwl - mae llawer o'r dioddef sydd yn y byd hwn yn annealladwy - a phetai dim mwy i fywyd na gofod ac amser - yn hynod annheg hefyd. Ond wrth gwrs nid dyna ddiwedd y stori. Mae mwy i fodolaeth person na'r byd hwn a'i amrywiol brofiadau.

Nawr fel mae'n digwydd syrthiodd Sul y Pasg yng nghanol y gyfres ar Job. Ar y dydd hwnnw wrth gwrs fe fuom yn meddwl am atgyfodiad Iesu Grist. Mae hyn yn ein hatgoffa fod yna fwy i fywyd na'r byd hwn - mae yna fywyd ar ol y bedd - mae yna dragwyddoldeb. Mae Crist yn concro angau ac felly yn sicrhau mynedfa i ni hefyd rhyw ddydd i'r nefoedd. A dim ond yn nhragwyddoldeb y byddwn yn gallu deall yn iawn bob dioddef a ddaeth i ni y byd hwn.

(parhad ar dudalen 5)

Gwragedd a Dysg

Dyma'r ail erthygl mewn cyfres yn cyflwyno gwahanol weithgareddau'r capel. Edrychwn ar wasanaethau'r Sul yn y *Cwmpawd* nesaf.

Paned a Sgwrs

Bore coffi pythefnosol i'r gwragedd yw Paned a Sgwrs, gyda nifer dethol o blant bach yn cadw cwmni i ni, ac yn ein difyrru ar brydiau. Criw gweddol fach ohonom ni sydd, yn cynnwys aelodau o'r eglwys ac ymwelwyr o eglwysi eraill. Mae'r cyfnod yn dechrau gyda phaned wrth i ni gyrraedd a chyfle i sgwrsio a mwynhau cymdeithas. Mae cyfle i bawb roi rhodd ariannol am y paned, ac aiff yr arian at waith Geoff Lane, Rwanda Restored.

Mae gennym amserlen amrywiol i'r tymor. Buom yn astudio llyfrau Ruth ac Iago yn ddiweddar, ond yn y gorffennol rydym wedi edrych ar lyfr Esther, y Salmau a gweddiâu amrywiol o'r Testament Newydd. Gan ein bod yn griw gweddol fychan a chlòs, gobeithio ein bod ni i gyd yn teimlo'n rhydd

i rannu, ychwanegu neu gofyn cwestiwn yn unol â'r hyn sydd ar ein calon. Mae'r astudiaethau yn weddol anffurfiol, felly er mai un person sydd yn arwain, mae pawb yn cyfrannu'n rhydd. Cawn seiadau yn weddol aml, a phawb yn sôn am hoff emyn, neu lyfr neu ran o'r ysgrythur.

Yn ychwanegol at yr astudiaethau cawn foreau cenhadol a siaradwyr gwadd. Cawn glywed yn gyson am y gwaith yn Rwanda a Rwmania. Eleni cawsom y fraint o



glywed am y gwaith yng Nghaffi'r Hedyn Mwstard yn Llanbed, ac yn y gorffennol rydym wedi cael cyfle i ddysgu am y gwaith yng Nghambodia, gwaith UCCF trwy Heledd Job a gwaith MERF ymhlith pethau eraill.

Cyn ffarwelio byddwn yn cael cyfnod o weddi a chyfle i rannu beichiau gweddi dros yr eglwys a throsom ni ein hunain, ein teuluoedd a'n cysylltiadau.

Catrin Lewis

Dysgwyr

Cerdd gan Gwenallt, emynau Pantycelyn, John Bunyan a *Thaith y Pererin*, y Wladfa, cerdd gan Christine - dyma rai o'r pynciau a drafodwyd yng nghyfarfodydd y dysgwyr ers mis Medi diwethaf.

Ar drydydd bore Sadwrn y mis daw hyd at 12 o ddysgwyr a rhai aelodau o'r eglwys at ei gilydd i fwynhau paned a sgwrs. Mae'r dysgwyr yn hynod o rugl ac wrth eu bodd yn trafod pynciau nad sy'n cael eu cynnig efallai mewn dosbarthiadau eraill. Braf

yw gweld eu brwdfrydedd a'u gwerthfawrogiad o gael dysgu mwy am draddodiad Cristnogol cyfoethog ein gwlad. Mae croeso i unrhywun i ymuno â ni yn y sesiynau hwyliog a buddiol hyn.

Lis Williams

(parhad o dudalen 3)

Yma mae llawer ohono yn gallu edrych mor annheg a dibwrpas ond nid yw tad cariadlawn yn peri fod unrhyw brofiad sydd yn dod i'w blant heb ei les a'i fudd. Mae pob peth, ie pob peth, yn cydweithio er daioni i'r rhai sydd yn caru Duw. Mae'r emyn wedi ei ganu yn aml mewn angladd 'O fryniau Caersalem ceir gweled / Holl daith yr anialwch i gyd / Pryd hyn y daw troeon yr yrfa / Yn felys i lanw ein bryd.' Dim ond yng ngoleuni'r atgyfodiad y mae yn bosibl dechrau deall dioddefaint annealladwy.

Ni Chredaf Fi Byt

Dewi George

*“Os na welaf ôl yr hoelion yn ei ddwylo a rhoi fy mys yn ôl yr hoelion, a’m llaw yn ei ystlys, ni chredaf fi byth”
(Ioan 20:25)*

“Estyn dy fys yma. Edrych ar fy nwylo. Estyn dy law a’i rhoi yn fy ystlys. A phaid â bod yn anghredadun, bydd yn gredadun.”

*“Fy Arglwydd a’m Duw”
(Ioan 20:27-28)*

Mae ansicrwydd yn rhinwedd i’w ganmol yn ein hoes ni - ym myd crefydd a chred beth bynnag. Diffyg gostyngedd rwydd sy’n nodweddu’r un sy’n honni fod ganddo wirionedd. Fodd bynnag, oni all pendantrwydd fod yn rhinwedd? Oni fyddai’n braf symud o amheuaeth i sicrwydd fel y gwnaeth Thomas?

Ein problem wrth ddarllen Ioan

20 yw ein bod yn ceisio uniaethu â Thomas a’i brofiad yn syth, yn hytrach na gofyn pwy yw Thomas a pham mae’r digwyddiad yma wedi ei gofnodi? Os na wnawn ni hynny, dyw’r hanes ddim yn berthnasol gan na allwn rhoi ein hunain yn esgidiau Thomas; fel mae Iesu’n dweud “Ai am i ti fy ngweld i yr wyt ti wedi credu? Gwyn eu byd y rhai a gredodd heb iddynt weld.” Yna’n syth, fe ddywed Ioan fod y digwyddiadau, gan gynnwys yr Atgyfodiad a hanes Thomas, wedi eu cofnodi er mwyn i ni gredu mai Iesu yw’r Meseia, Mab Duw, ac er mwyn i ni, trwy gredu, gael bywyd tragwyddol.

Gellid dweud mai proffes Thomas – ‘Fy Arglwydd a’m Duw’ – yw uchafbwynt Efengyl Ioan, ac mae hyn wedi digwydd ac wedi ei gofnodi, nid yn gymaint er mwyn dangos Thomas yr amheuwyr, ond Thomas yr Apostol (hynny yw, un a welodd y Crist atgyfodedig). Dyna sy’n gwneud y darn yn

h...?

berthnasol iawn i ni. Roedd yn rhaid i hyn ddigwydd er mwyn iddo fod yn Apostol. Ac ar sylfaen ac awdurdod Apostolion mae ffydd y Cristion wedi ei adeiladu. (Eff. 2.20)

Yng ngeiriau Iesu, wrth iddo ddweud wrth Thomas am beidio amau yr hyn y mae'r Apostolion wedi ei ddweud wrtho drwy'r wythnos, mae'r neges i ni heddi: peidiwch chi ag amau tystiolaeth yr Apostolion chwaith! Neges Crist yw nad oes angen gweld er mwyn credu. Dywed Ioanei fod yn cofnodi hyn, er mwyn i bobl (hyd yn oed 2000 o flynyddoedd yn ddiweddarach) gredu tystiolaeth y llygad-dystion.

Mae'n werth gofyn pam ei bod mor bwysig fod yr Apostolion yn rhai oedd wedi gweld Iesu wedi atgyfodi. Onid oedd Thomas wedi clywed dysgeidiaeth Crist - y damhegion a'r Bregeth ar y Mynydd er enghraifft? Clywn mai'r ddysgeidiaeth hon sy'n berthnasol heddi yn hytrach na syniadau rhyfedd, a gyflwynwyd yn ddiweddarach, ynglyn â

gwyrthiau goruwchnaturiol, marwolaeth ddirprwyol, ac atgyfodiad. Ond neges Ioan yw mai dyma sydd bwysicaf. Nid anogaeth i geisio byw bywyd gwell yw Cristnogaeth yn y lle cyntaf, (a fyddai'r neges honno wedi lledu drwy'r Ymerodraeth Rufeinig?) ond datganiad *radical* fod atgyfodiad Crist yn brawf ei fod yn Dduw a bod ei aberth dros bechod wedi ei dderbyn. Heb i Thomas a gweddill yr Apostolion weld yr Iesu Atgyfodedig, fyddai yna ddim ffydd Gristnogol.

Nid rhywbeth goddrychol yr ydym ni wedi ei ddewis yw 'ffydd', ond peth gwrthrychol; ymateb i ffeithiau – digwyddiadau goruwchnaturiol ond eto'n hanesyddol. Nid 'gwyn eu byd y rhai a gafodd brofiad ysbrydol, cyfriniol' yw neges Crist, (er nad oes aileni heb waith yr Ysbryd Glan) ond gwynfyd y sawl nad yw yn gallu rhannu profiad Thomas o weld, ond sydd wedi clywed...a darllen...a chredu neges y llygad-dystion cyntaf.

Holi Hwn a Hon

Katherine

O ble'r wyt ti'n dod?

O High Wycombe, yn swydd Buckingham, yn wreiddiol. Des i i Gymru er mwyn mynd i'r Brifysgol yn Llanbed, a wnes i byth symud yn ôl! Bues i yn Llanbed am naw mlynedd, yn cwblhau BA ac MA ac yna'n gweithio i gwmni gofal cartref. Tra oeddwn i'n gwneud y swydd honno dechreuais ar radd nyrso, yn cael fy hyfforddi yn Aberystwyth ac yn mynychu darlithoedd yng Nghaerfyrddin. Llanbed oedd y lle perffaith i fyw, felly arhosais yno yn ystod y cyfnod hwnnw. Doedd gen i ddim syniad ar y pryd am gynlluniau Duw ar fy nghyfer!

Wrth edrych yn ôl a gweld Duw yn gweithio allan ei bwrpas yn fy mywyd heb yn wybod imi, rwy'n teimlo 'mod i wir wedi cael fy mendithio. Mae fy nyled i'n

fawr i'r bobl cwrddais i â nhw yn yr eglwys yn Llanbed; trwyddyn nhw daeth daioni anfesuradwy i'm bywyd – heb i mi haeddu dim ohono.

Beth yw dy gefndir?

Fe'm magwyd i'n 'grefyddol'. Byddwn yn mynd i'r ysgol Sul a'r eglwys bob dydd Sul, ac ysgol Eglwys Loegr oedd fy ysgol gynradd. Wrth edrych yn ôl, roedd yr holl storïau o'r Beibl a'r syniad fod dydd Sul yn ddiwrnod gwahanol wedi aros gyda mi. Ac er nad oeddwn i'n Gristion, wnes i byth amau gwirionedd yr hyn a glywais i; roeddwn i'n credu pob gair, er nad oedd fy mywyd yn adlewyrchu'r gred yna.

Pryd dest ti'n Gristion?

Des i'n Gristion yn Llanbed ychydig o flynyddoedd yn ôl. Dyna pryd wnes i roi'r gorau i

Hallam

ganolbwyntio ar beth i'w wneud i gyrraedd Duw wrth i Dduw ddangos i mi mai Crist oedd popeth. Ar y groes cyflawnodd Iesu Grist bopeth. Ers dechrau yn y Brifysgol roeddwn i wedi bod yn mynychu Eglwys Efengylaidd Llanbed – yn ffyddlon ar adegau, ac yna ar adegau eraill doeddwn i ddim eisiau mynd o gwbl. Am flynyddoedd lawer roeddwn i'n byw dau fywyd: fy mywyd prifysgol a bywyd arall

gyda'r eglwys. Bu'r eglwys yn amyneddgar iawn â mi – felly hefyd y bachgen a gwrddais tua'r un adeg, a byddwn i'n ei gwestiynu a'i gwestiynu am bopeth! Trwy Trystan, dangosodd Duw i mi realiti bod yn Gristion.

Fy nhrobwynt oedd y Gwasanaeth Nadolig. Wrth wrando, agorodd Duw fy llygaid, am y tro cyntaf, i'r celwydd roeddwn i'n ei byw wrth feddwl y gallwn weithio fy ffordd tuag ato. Cofiaf ddychwelyd adref y Nadolig honno gan wybod fy mod i'n byw yn groes i gynllun Duw a'i wirionedd Ef. Ar ôl y gwylliau rhoddodd Trystan lyfr ar Rhufeiniaid i mi, a darllenaais



bob gair. Yr adeg yma rhoddais fy mywyd i Dduw. Ac fe newidiodd fy mywyd. Ychydig o fisoedd yn ddiweddarach es i i Sweden am dri mis gyda'r cwrs nyrso. Defnyddiodd Duw yr amser yma i'm torri i lawr a'm hailadeiladu. Roedd hi'n amser poenus, ond yn angenrheidiol. Wedi dychwelyd o Sweden ces i fy medyddio – profiad ffantastig a daeth fy nheulu cyfan i'w rannu. Roeddwn i'n nerfus tu hwnt, ond gwir ffraind oedd cael fy medyddio gan y bobl oedd wedi bod yn gymaint o gymorth imi. Wrth gyrraedd y pwynt yma yn fy mywyd roedd hi'n amhosib mesur gras ac amynedd Duw i mi.

Oes gen ti hoff adnod neu ran o'r Beibl?

Roedd Rhufeiniaid yn gymorth mawr i mi yn y misoedd cyntaf o fod yn Gristion. Trwy'r llyfr yma, des i i ddeall beth yw bod yn Gristion a'r ffraind fawr sydd gennym o gael ein galw'n blant i Dduw, a ninnau ond yn haeddu cosb. Ond rydw i wir yn mwynhau darllen y Beibl nawr. Mae hi'n anodd ar adegau ond mae'r holl Feibl yn werthfawr.

Mae Duw yn wir yn ei ddatgelu ei hun drwyddo.

Oes yna lyfr Cristnogol sydd wedi dy helpu di?

Eto i ddychwelyd at Rhufeiniaid, llyfr Stuart Olyott *The Gospel as it really is* yw un o'r llyfrau gorau i mi ei ddarllen erioed, a'r un perffaith i mi ei ddarllen ar y pryd. Roedd llyfr bach gan John Blanchard ar Efengyl Marc yn fuddiol iawn i mi pan oeddwn i yn Sweden. Ond mae yna gymaint mwy! Ar hyn o bryd rwy'n mwynhau *Just Give Me Jesus* gan Anne Graham Lotz yn fawr.

Adolygiad

Noel Gibbard

Mae *God, Big Bang & Bunsen-Burning Issues* yn gasgliad o bymtheg o benodau gan wyddonwyr, a thri o'r rheini erbyn hyn wedi eu hordeinio i'r weinidogaeth Gristnogol. Mae pob un yn arbenigwr yn ei faes. Ceir nodyn am gymwysterau yr awduron – sy'n rhyfeddol! Cyfweliadau yw'r penodau a ymddangosodd gyntaf yn y *War Cry*, papur Byddin yr Iachawdwriaeth, a'r golygydd sy'n gyfrifol am y gyfrol hon. Er bod manylion gwyddonol yn y llyfr, fe'i sgrifennwyd yn y fath fodd fel y gall y rhai sydd heb lawer o wybodaeth yn y maes ei werthfawrogi.

Mae'n dda cael pobl fel hyn i drin a thrafod y cysylltiad rhwng gwyddoniaeth a chrefydd. Cred pob un o'r awduron nad oes gwrthdaro rhwng y ddeupeth. Gwnânt yn glir fod Richard Dawkins yn cyfeiliorni wrth ddweud, 'The existence of God is a scientific hypothesis like

any other'. Y mater mwyaf amlwg yn y gyfrol yw perthynas crefydd ac esblygiad, er bod sôn hefyd am gynhesu cyffredinol, a chyfrifoldeb moesol y gwyddonydd.

Mae'r pymtheg yn gytûn ynglŷn â'r Creu. Duw a greodd, a'r unig un oedd yn bod cyn hynny oedd Duw ei Hun. Ei weithred ef oedd dwyn popeth i fod. Yn unol â'r pwyslais hwn, caiff y goruwchnaturiol le dyladwy yn y gwaith. Mae'r gwyrthiol yn dderbyniol, ac amryw o'r awduron yn pwysleisio pwysigrwydd atgyfodiad Iesu Grist yn y grefydd Gristnogol. Daw cyffes bersonol sawl un o'r awduron i'r amlwg hefyd.

Yn fras, gellir dweud bod tri dosbarth o awduron rhwng cloriau'r gyfrol hon. Yn gyntaf y rhai sy'n derbyn penodau cynnar Genesis fel hanes, ac mai Adda ac Efa oedd y personau cyntaf. Dyma farn Alister McGrath,



Nigel Bovey,
God, Big Bang & Bunsen-
Burning Issues,
(Authentic, 2008)

John Lennox a Norman Nevin, ond cydnebydd McGrath y gall rhywun gredu esblygiad a bod yn Gristion. Fel mathemategydd, gall John Lennox ddweud gyda Galileo, 'mathematics is the language God has given us so that we can describe the world', a barn Norman Nevin yw, 'The

fusion of human-animal genetic material would be counter to the sacredness of human life'.

Ond mae dosbarth arall, sy'n derbyn mai Duw a greodd, ond mai ei ffordd o osod trefn ar bopeth oedd trwy esblygiad. Un posibilrwydd yw dweud mai'r Big Bang a ddechreuodd y broses hon. Yn y trydydd dosbarth, mae'r awdur sy'n derbyn gwaith Duw yn creu, ac yn derbyn esblygiad, ond yn credu i Dduw, rywbryd yn y broses o esblygu, anadlu i anifail a'i wneud yn ddyn â'r gallu i gymdeithasu â Duw a bod yn foesol gyfrifol.

Dadleua'r awduron sy'n derbyn esblygiad fod gwahaniaeth rhwng meddwl am Genesis yn wyddonol a meddwl amdano'n ddiwinyddol. Gwaith y gwyddonydd yw dweud sut y mae rhywbeth yn digwydd, tra mai gwaith y diwyndd yw dweud paham y mae rhywbeth yn digwydd. Nid llawlyfr gwyddonol yw'r Beibl, a dylid meddwl am benodau cyntaf Genesis fel barddoniaeth, sy'n cyfleu gwirionedd am Dduw.

Mae'n iawn tynnu gwahaniaeth rhwng y gwyddonydd a'r diwinydd pan fyddant yn trafod Genesis. Nid llyfr am wyddoniaeth yw Genesis, ond rhaid gofyn hefyd, pwy, neu beth sy'n penderfynu ein hagwedd at y bydysawd. Duw yw awdur y greadigaeth, ac ef yw awdur iachawdwriaeth. Mae pob gwirionedd yn gwreiddio ynddo ef. Rhaid bod cysylltiad rhwng y 'sut' a'r 'pam'. Cred yr awduron sy'n derbyn esblygiad, yng ngwaith Duw yn creu, ond mae'r weithred hon y tu hwnt i faes y gwyddonydd. Mae'r enghraifft hon, fel atgyfodiad Iesu Grist, yn enghraifft o 'singularity', pryd y mae deddfau ffiseg yn torri i lawr. Paham felly, na allai creu Adda fod yn enghraifft o 'singularity'?

Erbyn hyn mae gwahanol syniadau ymhlith Cristnogion am y Creu ac esblygiad. Un garfan yn derbyn Genesis fel hanes, ac yn dadlau bod y ddaear yn hen iawn; eraill yn derbyn Genesis fel hanes, ond yn hawlio bod y ddaear yn ifanc. Un cwmni yn egluro'r dyddiau yn Genesis yn llythrennol,

a chwmni arall yn meddwl amdanynt fel cyfnodau. Yr hyn sy'n bodloni eraill yw'r apêl at drefn y greadigaeth, sy'n ein cyfeirio at Gynlluniwr Deallus. Erbyn hyn ceir pwyslais arall, fel sy'n amlwg o'r gyfrol hon. Mae mwy o Gristnogion yn awr yn derbyn y Creu fel gwaith Duw, a hefyd yn derbyn esblygiad mewn gwahanol ffyrdd.

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George
Noel Gibbard
Amanda Griffiths
Christine James
Catrin Lewis
Gwynn Williams

Gambia

Lewis Roderick

Wrth i fy ymweliad â Gambia agosau, dechreuais gwestiynu pam ro'n i'n mynd o gwbl. Craidd y rhan fwyaf o'r straeon cenhadol roeddwn i'n eu cofio oedd blynyddoedd o ymdrech; dysgu'r iaith yn drwyadl, addasu'n araf bach i wlad diethr, darganfod yn raddol y cysylltbwyntiau angenrheidiol er mwyn rhannu'r efengyl. Ar ôl cael fy lle ar yr awyren yn Gatwick am 6.55am, dyma fi'n ffeindio fy hun yn hedfan dros Moroco, wedi bod yn genhadwr rhyngwladol am 4 awr yn unig, ac eisioes wedi dychryn go iawn. *Beth ar y ddaear allen ni gyflawni mewn 12 diwrnod?*

Roeddwn i wedi clywed hanesion am bobl yn mynd ar ymgyrchoedd tymor byr, ac yn creu trafferthion i'r cenhadon yn hytrach na'u helpu – *faux pas* diwylliannol yn tarfu ar flynyddoedd o waith caled. *A fyddai hyn yn digwydd inni?*

Ceisiais sicrhau fy hun; i ddechrau, roeddwn ni wedi cael ein gwahodd. Byddai pump

ohonom o Cornhill yn glanio ym maes awyr rhyngwladol Banjul yn wahoddedigion GAMFES (mudiad yn Gambia sy'n debyg i UCCF). Roeddwn ni yno i helpu arwain ymgyrch prifysgol, i gynnig ychydig o seminarau, i ddarlithio yn y Brifysgol ac i siarad mewn rhai eglwysi lleol. Gobaith GAMFES oedd y byddai ein presenoldeb ni yn helpu annog yr Undebau Cristnogol ar gyfer yr ymgyrch. Mae'r Undebau Cristnogol yn y wlad yn fychan, ac, am resymau diwylliannol, dydi efengylu ddim yn flaenoriaeth uchel.

Mae 95% o boblogaeth Gambia yn Foslemiaid, ac o'r 5% o Gristnogion sy'n weddill byddai'r mwyafrif helaeth yn pregethu efengyl *health, wealth and prosperity* – sy'n eithaf anghyfarwydd i mi yn y DU, ond wedi dweud hynny, rwy'n byw mewn gwlad sy'n gyffredinnol yn iach ac yn gyfoethog. Gwlad gwahanol iawn i Gambia. Yn ôl wefan IFES, mae gan Gambia '*...gyd-destun o lwgrwobrwyo, anghyfiawnder*

cymdeithasol ac ansefydlogrwydd gwleidyddol ynghyd â thlodi eithafol a'r pandemic HIV/AIDS yn lledu drwy'r rhanbarth' (www.ifesworld.org/country/?id=GM). Yng ngoleuni y cefndir hwn dydy llwyddiant yr efengyl 'prosperity' ddim yn synnu.

Ondniddymadiweddygân. Cefais gyfle i gwrdd â nifer o Gristnogion - pobl oedd yn esiamplau hyfryd o ras achubol Duw. Cwrddais â Xavi, dyn 20 oed a'i deulu wedi troi cefn arno ers iddo droi wrth Islam at Grist. Roedd hyd yn oed wedi cael ei fygwth â marwolaeth. Ei dystiolaeth ef yw bod ei galedi presennol yn werth ei ddioddef er mwyn ennill y trysor sydd ganddo yn Iesu Grist. Cwrddais â Mariatoo, gwraig sy'n gwasanaethu'n ffyddlon yn ei heglwys leol ac sy'n gweddio'n daer ar i Dduw godi dynion yn y wlad i bregethu'r gwir efengyl. Cwrddais â Noble, arweinydd GAMFES, a gafodd droedigaeth wedi codi Beibl i'w ddarllen mewn carchar yn America, a hynny ar ôl cael ei ddal yn gwerthu cyffuriau. Cwrddais â Paul, oedd ar un adeg yn cael ei hyfforddi i fod yn imam ond a brofodd droedigaeth rhyfeddol drwy gyfrwng

breuddwyd. Trwy gyfarfod â'r bobl yma roedd Duw'n fy atgoffa i'n dyner bod Gambia, sydd i'w weld yn dir mor galed, yn eiddo iddo ef, i'w ogoniant ef.

Wrth gwrdd â phobl fel hyn hefyd y lleddfwyd fy ofnau cychwynol am werth y daith. Ar ddiwedd y daith, wrth inni lwytho'r *gulguli* yn barod i yrru nôl i'r maes awyr dyma'r pedwar aelod o staff GAMFES yn ymddangos i ffarwelio â ni. Wrth ddal ein dwylo, gwelais y llawenydd ar bob wyneb wrth iddyn nhw ddiolch i'n Tad am ddeuddeg diwrnod o *gymdeithas*. Dyma rhywbeth rwy'n ei gymryd mor ganiataol; i mi mae hi mor hawdd danfon neges-destun yn dweud 'strbks@4?' er enghraifft ond i Noble a Paul a'r 5%, nid felly. Dangosodd Duw i mi fod y daith yma gymaint yn fwy na pharatoi ychydig o bregethau a chael tocyn awyr Thomson rhad – roedd e'n gyfle i frodyr edrych gyda'i gilydd ar y groes a mwynhau ei ras mawr. Dyna ffrainc i fedru eu gwasanaethu nhw, wrth iddyn nhw fy ngwasanaethu i; fe'm darostyngwyd i, wrth iddyn nhw gael eu hannog. Mae Duw yn dda, ac yn Arglwydd ar Gambia.

Newyddion

Ers cyhoeddi'r *Cwmpawd* diwethaf, bu farw Mary Jane Evans (neu Mari 'Gorsto') Mamgu Angharad Woolley. Daeth 'Mamgu' yn wyneb cyfarwydd iawn inni ar foreau Sul (ac yn y cyrddau gwagedd), ac ry'n ni'n cysymdeimlo â'r teulu yn eu colled.

Parhawn i weddio dros Alaw Fflur Davies sydd yn Ysbyty Frenchay ym Mryste yn dilyn damwain car ddifrifol. Diolchwn am bob arwydd calonogol, a'r ffaith ei bod hi'n mynd i gael ei symud i ysbyty yng Nghaerdydd yn fuan, a gweddiwn am wellhad cynyddol. Ynghyd â'r cysylltiadau teuluol, bu Alaw yn wyneb cyfarwydd

yn yr eglwys, a'r grwp pobl ifanc dros y blynyddoedd.

Rydym yn falch iawn o gael Gwynn yn ôl yn y pulpud ar ôl ei gyfnod o adferiad, ac yn ddiolchgar fod ei lawdriniaeth, a'r llawdriniaeth gafodd Helen Gibbard yn ddiweddar, wedi bod yn llwyddiant.

Bwyd arbennig; llawer o chwerthin; cwmni gwyh; cyfleon i sgwrsio, rhannu a gweddio gyda'n gilydd – dyma rai o uchafbwyntiau gwyliau'r capel ym Mhenfro ym mis Ebrill. Diolch yn fawr i Amanda am drefnu, ac i bawb a fu'n arwain



*Chwarae ar y Playstation
ar wyliau'r capel*

neu'n coginio inni. Os nad oeddech chi yno – cofiwch gadw penwythnos ola'r Pasg yn rhydd yn 2010!

Llongyfarchiadau i Iwan Rees ar brynu ei fflat newydd; ac i Meleri Perkins ar symud i'w thy newydd hithau ddechrau mis Mai.

Byddwn yn fuan yn ffarwelio â'r myfyrwyr wrth i'r haf agosau. Diolch am eich cwmni dros y tymor diwethaf. A diolch yn fawr i Elain Llwyd, sy'n dod i ddiwedd ei chwrs gradd, am ei gwaith gyda Chylch y Plant Bach ar foreau dydd Gwener – bydd y plant yn colli dy gwmni di!

Dyddiadau i'w cofio

Cynhelir diwrnod blynyddol Eglwys i'r De, yng nghanolfan Trefeca, ar Fehefin 6ed. Y siaradwr eleni fydd Dafydd Job, Bangor.

Cynhelir cyngerdd arbennig yn adeilad Eglwys Highfields ar nos Iau 25 Mehefin am 7.30 p.m yng nghwmni disgyblion yr ysgolion Cymraeg cyfagos i ddatlu pum mlynedd yn hanes Menter Ysgolion Cymraeg. Mae Gwen a'r tim (Carwyn Arthur, Bethan Jenkins, Mary Nicholas ac Adam

Colman) yn ddiolchgar iawn am eich gweddïau dros y gwaith hwn. Dyma rhai o ddyddiadau Gwen ei hun dros y tymor nesaf:

Mai

Sul 10 | Capel Bethlehem,

Treorci | Gwasanaeth plant

Llun 11 | Pwyllgor Menter

Ysgolion Cymraeg

Maw 19 | Uned Gymraeg

Creigiau | Gwasanaeth

Mer 20 | Ysgol Castellau,

Beddau | Gwasanaethau

27 Mai - 9 Meh | Ymweliad

Llong *Logos Hope* â Chaerdydd

(Gwaith cyfieithu a dosbarthu

taflenni i'r ysgolion Cymraeg a

helpu gyda'r grwpiau Cymraeg

fydd yn ymweld â'r llong)

Mehefin

Iau 18 | Ysgol Heol-y-Celyn |

Gwers gyda blwyddyn 5 & 6

Gwe 19 | Ysgol Sant Baruc

& Ysgol Gwaun-y-Nant |

Gwasanaethau, a dosbarthu'r

Cam Nesa

Mer 24 | Cyfarfod yr OAC

Gwe 26 | Ysgol Creigiau gyda

Pete Hodge

Mer 8 | Ysgol Iolo Morgannwg,

Y Bontfaen | Gwasanaeth ysgol

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.30pm

Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am

Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

<i>Mai</i>	<i>10</i>	<i>Trystan Hallam</i>
	<i>17</i>	<i>Gwynn Williams</i>
	<i>24</i>	<i>Gwynn Williams / Trystan Hallam</i>
	<i>31</i>	<i>Gwynn Williams / Trystan Hallam</i>

<i>Mehefin</i>	<i>7</i>	<i>Gwynn Williams / Trystan Hallam</i>
	<i>14</i>	<i>Gwynn Williams / Emyr James</i>
	<i>21</i>	<i>Gwyn Davies</i>
	<i>28</i>	<i>Gwynn Williams</i>

Yr Eglwys Newydd

Cynhelir oedfa nos unwaith y mis (ar ail Sul y mis) yng nghapel Tabernacl, Heol Merthyr am 6.30pm

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni, Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org